# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-12-09 Papur 2: 22 Medi 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd eisoes wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn y gorffennol.

Daeth llawer o'r wybodaeth newydd hon i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (i) P-03-088 Gwasanaethau bws gwledig yn Nhaliesin

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym ni sydd wedi arwyddo isod, yn pryderu am newid yn yr hinsawdd ac yn awyddus i leihau ein hallyriadau carbon. Yn anffodus, mae'r gwasanaethau bws sy'n cysylltu'n pentref ni (Tre Taliesin) â'n trefi lleol sef Aberystwyth a Machynlleth yn anaml ac yn ddrud ac mae hyn yn gwneud cymudo â char bron â bod yn orfodol. Yr ydym yn annog y Cynulliad Cenedlaethol i fuddsoddi mewn gwasanaethau bws fforddiadwy a mwy rheolaidd yng nghefn gwlad Cymru, oherwydd credwn mai diffyg system drafnidiaeth gyhoeddus integredig yw un o'r rhwystrau mwyaf i ddatblygu cymdeithas gynaliadwy yng Nghymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-88.htm

**Cynigiwyd gan:** Ms P C Henderson

**Nifer y llofnodion:** 27

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 6 Mawrth 2008, 8 Mai 2008, 25 Mehefin 2008.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ystyriwyd y ddeiseb hon ddiwethaf ar 25 Mehefin 2008.

### (ii) P-03-098 Dileu Enw Ysgol Gyfun Rhydfelen

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym wedi cael ar ddeall fod y Cynulliad wedi dyfarnu o blaid Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf parthed y weithred o newid enw Ysgol Gyfun Rhydyfelen, a'i ddull o sicrhau'r newid hwn. Mae hyn yn destun syndod a gofid i ni. Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau pell-gyrhaeddol o safbwynt pwerau a hawliau byrddau llywodraethol ysgolion. Mae hefyd, wrth gwrs, yn cadarnhau penderfyniad di-sail a di-angen yr Awdurdod i ddileu enw ysgol sydd a lle mor amlwg yn hanes Addysg Cymru, a hynny'n gwbwl groes i'r farn a leisiwyd yn gyson gan lywodraethwyr yr ysgol, y rhieni, disgyblion, trwy Gyngor yr Ysgol, a staff. Deallwn fod yr Arglwydd Gwilym Prys Davies eisoes wedi cysylltu trwoch chi ag aelodau 'r Pwyllgor Deisebau. Carem ategu ei gais am ddiwygiad cyflym o'r is-ddeddfwriaethau perthnasol, gan ddychwelyd yr hawl i newid enw ysgol i'w llywodraethwyr.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-98.htm

**Cynigiwyd gan:** Mr Emlyn Penny-Jones

**Nifer y llofnodion:** 25

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 31 Ionawr 2008, 10 Ebrill 2008 a 19 Mai 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (iii) P-03-099 Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu llwybr ar gyfer holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr ochr yn ochr â'r A40 rhwng y gilfan bicnic yn y Bwlch a'r gyffordd newydd yn Nhalybont-ar-Wysg, gan greu cyswllt diogel rhwng y Mynydd Du a rhwydwaith Hawliau Tramwy Bannau Brycheiniog.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-99.htm

**Cynigiwyd gan:** Lucienne Bennett

**Nifer y llofnodion:** 18

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 21 Chwefror 2008, 8 Mai 2008, 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (iv) P-03-137 Hypothyroidedd yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r diffyg diagnosis o hypothyroidedd a'r gamreolaeth ohono yng Nghymru gyda golwg ar gynhyrchu argymhellion i gywiro'r sefyllfa hon.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-137.htm

**Cynigiwyd gan:** Dr Sarah Myhill

**Nifer y llofnodion:** 1433

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008, 10 Chwefror 2009, 5 Mai 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol a'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3)-12-09 Papur 2A.

### (v) P-03-157 Coleg Ffederal Cymraeg

**Geiriad y ddeiseb**

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i gadw at addewid cytundeb 'Cymru'n Un' o sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg. Rhaid i Goleg Ffederal gynnwys yr elfennau canlynol:

Statws statudol a chyfansoddiad annibynnol

Siarter a chylch gorchwyl annibynnol gan gynnwys cyfrifoldeb dros holl addysg uwch cyfrwng Cymraeg Cymru

Llif arian annibynnol — o leiaf £20 miliwn yn y lle cyntaf

Cofrestr myfyrwyr annibynnol, a fydd yn sicrhau bod modd i fyfyrwyr gofrestru gyda'r Coleg Ffederal a chyda'u coleg daearyddol, gan arwain at ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth ohono.

Byddai unrhyw beth llai na chyfuniad cyflawn o'r uchod yn torri'r addewid. Galwn ar y llywodraeth i ail-ystyried eu cynlluniau os nad yw'r uchod yn rhan ohonynt.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-157.htm

**Cynigiwyd gan:** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

**Nifer y llofnodion:** 977

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 9 Gorffennaf 2008, 2 Hydref 2008, 6 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ysgrifennodd y Pwyllgor at y deisebydd ar ôl y cyfarfod ar 13 Ionawr 2009. Hyd yma, nid oes ymateb wedi dod i law.

### (vi) P-03-170 MENCAP Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain gyda golwg ar gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu , ac i annog cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol, i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu. Dim ond 1 o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu y mae arnynt eisiau gweithio sydd mewn unrhyw fath o gyflogaeth lle rhoddir tâl. Mae hyn yn annheg.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-170.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** MENCAP Cymru

**Nifer y llofnodion:** 134

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 19 Mai 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (vii) P-03-172 Deiseb i adfer Fferi Abertawe/Cork

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog, ym mhob ffordd bosibl, adfer yn fuan y fferi rhwng Abertawe/Cork. Credwn y bydd iddi fanteision economaidd a chymdeithasol pendant i'r naill economi a'r llall.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-172.htm

**Cynigiwyd gan:** John Hosford

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Hosford a chasglwyd 29 o lofnodion. Mae dros 1,500 o lofnodion a datganiadau o gefnogaeth wedi'u casglu ar wefan y deisebydd yn galw am adfer y llwybr fferi hwn.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 16 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009, 31 Mawrth 2009, 5 Mai 2009 ac 19 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (viii) P-03-179 Post 19 Myfyrwyr Ôl-19 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gofyn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi sylw i'r problemau sy'n wynebu myfyrwyr 19+ oed sydd ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu cymhleth. Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt am fynychu addysg breswyl, nid oes Coleg priodol yng Nghymru iddynt ei fynychu sy'n diwallu eu hanghenion cymhleth.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-179.htm

**Cynigiwyd gan:** Julie Prosser

**Nifer y llofnodion:**10

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 06 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009 ac 19 Mai 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ar 17 Mehefin 2009, rhoddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y

mateb ysgrifenedig

i'r a

droddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon

. Mae'r Gweinidog wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu mewn egwyddor. Cynhaliwyd dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 2

4 Mehefin 2009

.

### (ix) P-03-203 Addysg bellach i bobl ifanc gydag amhariadau cymhleth

### Geiriad y ddeiseb

Mae Scope Cymru yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Addysg Bellach ar gyfer pobl ifanc â nam cymhleth, wedi ei chydleoli ar gampysau colegau Addysg Bellach prif ffrwd presennol ar amryfal safleoedd ar draws Cymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-203.htm

**Cynigiwyd gan:** Scope Cymru

**Nifer y llofnodion:** 1

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 31 Mawrth 2009 ac 19 Mai 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ar 17 Mehefin 2009, rhoddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y

mateb ysgrifenedig

i'r a

droddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon

. Mae'r Gweinidog wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu mewn egwyddor. Cynhaliwyd dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 2

4 Mehefin 2009

.

### (x) P-03-181 Anemia Dinistriol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod nad yw'r diagnosis a'r driniaeth o Anemia Dinistriol yn ystyried anghenion unigol cleifion ac mae hyn yn aml yn cael effaith niweidiol ar brofiad y claf o reoli'r cyflwr. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gorchymyn bod diagnosio, monitro a thrin Anemia Dinistriol yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn er mwyn diogelu urddas a hawliau dioddefwyr y clefyd.

### Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-181.htm

**Cynigiwyd gan:** The Pernicious Anaemia Society

**Nifer y llofnodion:** 20

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 19 Mai 2009 ac 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xi) P-03-182 Cyllid Ewropeaidd

### Geiriad y ddeiseb

Drwy'r ddeiseb hon, rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol i lansio ymchwiliad i'r defnydd economaidd o arian Ewropeaidd a dderbyniwyd gan Gymru ers y flwyddyn 2000 ac i'r dulliau arfaethedig ar gyfer darparu'r cronfeydd Cydgyfeirio yn 2007-14. Rydym yn bryderus yn benodol ynghylch strategaethau sy'n gwrthdaro, megis gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i weithredu fel barnwr a rheithgor, ac ar yr un pryd yn cystadlu â'r sector preifat am yr adnoddau prin hyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-182.htm

**Cynigiwyd gan:** T Wyn Price

**Nifer y llofnodion:** 39 o gyfarwyddwyr busnes o orllewin Cymru.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 20 Tachwedd 2008 ac 13 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ar 24 Mehefin 2009, rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog y

mateb ysgrifenedig

i a

droddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon

. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 1

Gorffennaf 2009

.

### (xii) P-03-183 Coleg Ceredigion

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, myfyrwyr Coleg Ceredigion yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r gwasanaeth rheilffyrdd yn Aberystwyth.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-183.htm

**Cynigiwyd gan:** Disgyblion Coleg Ceredigion

**Nifer y llofnodion:** 10

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a Trafnidiaeth Canolbarth Cymru wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xiii) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr. Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon. Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-188.htm

**Cynigiwyd gan:** Zoe Walters

**Nifer y llofnodion:** 22

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 5 Mai 2009 a 9 Mehefin 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xiv) P-03-197 Achub y Vulcan

### Geiriad y ddeiseb

Mae Gwesty'r Vulcan yn Stryd Adam, a adeiladwyd yn 1853, yn un o dafarndai hynaf Caerdydd. Trefnwyd iddo gael ei ddymchwel ym mis Mehefin 2009 i wneud lle i faes parcio aml-lawr a fflatiau. Helpwch ni i wneud i'r datblygwyr gynnwys y Vulcan yn eu dyluniadau a rhoi stop ar y fandaliaeth ddianghenraid hon o ddiwylliant a hanes Caerdydd.

Mae sôn am symud y dafarn i Amgueddfa Sain Ffagan ond ni ddylai'r Vulcan fod mewn amgueddfa; dylai fod lle y bu am 155 blynedd - yng nghanol Caerdydd.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod mwy o werth i Gaerdydd o gael Gwesty'r Vulcan yn sefyll nag o'i gael wedi'i ddymchwel, ac mae mwy o werth iddo o'i gael yn sefyll lle y mae nag o'i gael mewn amgueddfa. Rydym yn annog y datblygwyr i barchu diwylliant a hanes Caerdydd a diogelu'r adeilad hanesyddol hwn ar ei safle presennol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-197.htm

**Cynigiwyd gan:** Rachel Thomas

**Nifer y llofnodion:** 5,000

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 02 Mawrth 2009, 17 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 19 Mai 2009, 9 Mehefin 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xv) P-03-200 Camlas Morgannwg

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi'r awydd i greu llwybr hanesyddol Camlas Morgannwg o Ferthyr i Fae Caerdydd gan nodi lleoliadau o bwys ar y ffordd, ynghyd â safleoedd hanesyddol eraill o fewn cyrraedd i'r Gamlas e.e. Llong Ysbyty Hamadryad, fel modd o annog diddordeb yn hanes y rhanbarth a thwristiaeth a darparu llwybr cerdded a beicio diddorol a heriol.
**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-200.htm

**Cynigiwyd gan:** John Williams

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 19 Mai 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xvi) P-03-202 Lwfans Cynhaliaeth Addysg

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod bod pobl ifanc dros 16  oed yn cael eu hystyried i fod yn oedolion gan eu rhieni, ac felly ni ddylid ystyried incwm eu rhieni wrth asesu cymhwyster ar gyfer Lwfans Cynhaliaeth Addysg.  Dylid ei seilio ar incwm unigolyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-202.htm

**Cynigiwyd gan:** Catrin Anne Davies

**Nifer y llofnodion:** 272

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 17 Mawrth 2009, 31 Mawrth 2009, 5 Mai 2009 a 23 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ar 9 Gorffennaf 2009, rhoddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y

mateb ysgrifenedig

i a

droddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon

. Mae'r Gweinidog wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu mewn egwyddor.

### (xvii) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc

### Geiriad y ddeiseb

Hoffai Clwb Ieuenctid yr Ammanford Junior Gateway ofyn a fyddech cystal â llofnodi'n deiseb a fydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyngor lleol.

I gael cyfleusterau hamdden am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-206.htm

**Cynigiwyd gan:** Ammanford Gateway Club

**Nifer y llofnodion:** 562

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 05 Mai 2009 ac 19 Mai 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Pwyllgor Archwilio, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Dreftadaeth wedi darparu gwybodaeth sydd i'w gweld fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

## (xviii) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-207.htm

**Cynigiwyd gan:** Pwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Trefynwy

**Nifer y llofnodion:** 286

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 23 Mehefin 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

## (ixx) P-03-209 Dileu ffioedd dysgu yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb**

Mae Cymru X yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-209.htm

**Cynigiwyd gan:** Cymru X

**Nifer y llofnodion:** 30

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 9 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

## (xx) P-03-212 Lleihau traffig yn Llanelwy

### Geiriad y ddeiseb

Cytunaf fod ar Lanelwy angen ffordd liniaru Gogledd/De.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-212.htm

**Cynigiwyd gan:** Cyngor Tref Dinas Llanelwy

**Nifer y llofnodion:** 5000+

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 5 Mai 2009 a 23 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

## (xxi) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deiseb Secret World Wildlife Rescue)

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w gynllun arfaethedig i ddifa moch daear fel rhan o'i raglen dileu TB mewn gwartheg. Mae hyn yn wyneb tystiolaeth wyddonol gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid o'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol. Mae'n nodi'n glir 'na all difa moch daear wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg. Ymunwch â'n hymgyrch - rhowch ddiwedd ar y cynllun difa!

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-213.htm

**Cynigiwyd gan:** Secret World Wildlife Rescue

**Nifer y llofnodion:** 14098

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 5 Mai 2009 a 23 Mehefin 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A. At hynny, mae deiseb newydd wedi dod i lawr ar yr un pwnc gan yr RSPCA - ceir crynodeb isod:

### (xxii) P-03-235 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deiseb yr RSPCA)

### Geiriad y ddeiseb

Llofnodwch y ddeiseb heddiw a lleisio'ch barn yn erbyn penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddifa moch daear yng Nghymru fel rhan o strategaeth i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg. Mae'r RSPCA wedi cael ei synnu gan y penderfyniad i ddifa moch daear ond mae'n croesawu'r cynlluniau i brofi mwy o wartheg ac i wella bioddiogelwch. Bu'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol yn goruchwylio arbrawf i ddifa moch daear yn Lloegr dros 10 mlynedd, a gostiodd £34 miliwn a lladd bron i 11000 o foch daear. Canfu'r ymchwil fod difa moch daear yn newid ymddygiad cymdeithasol y moch daear sy'n weddill, a bod hynny'n ei dro'n cynyddu'r risg y bydd afiechyd yn lledu i foch daear eraill a gwartheg. Dim ond drwy gael gwared ar foch daear dros ardaloedd eang iawn y gellir osgoi'r risg o afiechyd. Daeth y Grŵp Gwyddonol Annibynnol i'r casglu nad yw difa moch daear ar raddfa o'r fath yn opsiwn dichonadwy ar gyfer eu rheoli, a hynny oherwydd pryderon yn ymwneud ag elfennau ymarferol, economaidd, cyfreithiol, amgylcheddol a lles.

**Cynigiwyd gan:** RSPCA

**Nifer y llofnodion:** 304

### (xxiii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - agor ar ddydd Sadwrn

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddarparu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i alluogi'r Llyfrgell i wrthdroi ei benderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn o'r 1af Ebrill 2009. Dydd Sadwrn yw unig ddiwrnod yr wythnos y gall ymchwilydd brwdfrydig, amatur sy'n gweithio, ymweld â'r llyfrgell.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-217.htm

**Cynigiwyd gan:** Nicholas Davey

**Nifer y llofnodion:** 93

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 9 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xxiv) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni

**Geiriad y ddeiseb**

Deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Er mwyn i gerddwyr allu cerdded yn ddiogel, teimlwn ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Fforddd Plas Derwen yn cael ei ostwng i o leiaf 30 mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-220.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Maureen Powell

**Nifer y llofnodion:** 220

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 19 Mai 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xxv) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, Fforwm Pobl Hŷn dros 50 oed Cwm Cynon, am gyflwyno deiseb yn galw am well triniaeth traed drwy'r GIG, yn enwedig i bobl

hyn sy'n gaeth i'w tai yn ardal Rhondda Cynon Taf: Llofnodwch ein deiseb.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-221.htm

**Cynigiwyd gan:** Fforwm Pobl Hŷn dros 50 oed Cwm Cynon

**Nifer y llofnodion:** 49

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 9 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xxvi) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymyrryd i atal cau Meithrinfa Stepping Stones ar gampws Glyn Ebwy, Coleg Gwent.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-224.htm

**Cynigiwyd gan:** Brian Walters

**Nifer y llofnodion:** 20 (at hynny, casglodd y deisebydd dros 1000 o lofnodion mewn deiseb gysylltiedig)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 9 Mehefin 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xxvii) P-03-226 Sands - yr elusen dros farw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i: 1. gymryd sylw o'r 'Saving Babies' Lives Report 2009', a gyhoeddwyd gan Sands i gefnogi ei ymgyrch 'Why 17?' 2. datblygu strategaeth i leihau nifer y marw-enedigaethau a'r marwolaethau ymysg plant newydd-anedig yng Nghymru 3. ariannu ymchwil pellach i wella'r ddealltwriaeth ynghylch pam mae marw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig yn digwydd 4. datblygu darpariaeth gofal cynenedigol o safon aur ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru 5. gweithio gyda Sands i wella'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r materion hyn

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-226.htm

**Cynigiwyd gan:** Sands - yr elusen dros farw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig

**Nifer y llofnodion:** 816

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xxviii) P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at anheddau preswyl

**Geiriad y ddeiseb**

Gofynnwn i'r Cynulliad adolygu'r darpariaethau presennol ynghylch pa mor agos y caiff tyrbinau gwynt fod at gartrefi, sef 500m ar hyn o bryd (gweler paragraff 3.4, Atodiad D i TAN8). Gofynnwn i'r pellter lleiaf fod yn 2KM fel yn yr Alban. Ynghyd â'r sŵn, bu llawer o ddamweiniau ac mae'r ffaith bod y tyrbinau mor agos at gartrefi yn effeithio ar harddwch yr ardal leol i drigolion.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-231.htm

**Cynigiwyd gan:** Glyncorrwg Action Group

**Nifer y llofnodion:** 171

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

### (xxix) P-03-232 Coetir Ffynnone a Cilgwyn

**Geiriad y ddeiseb**

Mae Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i'r cyllid a roddwyd i Calon yn Tyfu / Growing Hearts Ltd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer prynu coetiroedd Ffynone a Chilgwyn yng Ngogledd Sir Benfro o dan Gynllun Cydcoed, a ariennir yn gyhoeddus.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-232.htm

**Cynigiwyd gan:** Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council

**Nifer y llofnodion:** 329

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar:** 7 Gorffennaf 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Calon yn Tyfu Cyf., Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 12-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Medi 2009**